**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-11-16 Papur 5 / Paper 5

Ein cyf/Our ref MA (L) CS -5196-16

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

8fed Tachwedd 2016

Annwyl John

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Hydref, wedi imi fynychu'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 19 Hydref.

Isod, rwy'n ymateb isod i bob un o'r pwyntiau penodol sydd wedi eu codi:

- Os na chaiff y strategaeth genedlaethol ei chyhoeddi ar amser, beth fydd y canlyniadau cyfreithiol?

  Cafodd y Strategaeth Genedlaethol ei chyhoeddi ar 4 Tachwedd 2016.

- Beth yw statws cyfreithiol y Cynllun Cyflenwi, a sut y bydd yr amcanion/gofynion yn cael eu gorfodi?

  Un o ofynion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yw bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi adroddiadau cynnydd blynyddol sy'n dangos i ba raddau y cyflawnir amcanion y Strategaeth Genedlaethol a dibenion y Ddeddf yng Nghymru, drwy gyfeirio at y dangosyddion cenedlaethol. Bydd y rhain, ochr yn ochr â'r Fframwaith Cyflawni, yn dangos pa mor effeithiol ydym o ran cyflawni amcanion y Strategaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cynnwys y Fframwaith Cyflawni yn parhau i gael ei ddatblygu, a chaiff y statws cyfreithiol ei benderfynu yn ystod y cyfnod hwn. Er mwyn datblygu'r Fframwaith Cyflawni byddwn yn cydweithio ag amrywiaeth o randdeiliaid , a hefyd yn cael cymorth gan y Cynghorydd Cenedlaethol. Gan eu bod wedi cyfrannu'n sylweddol at y gwaith o ddatblygu'r cerrig milltir ar gyfer gweithredu'r fframwaith, ynghyd â'i amcanion, rhagwelir y bydd y rhanddeiliaid wedyn yn mynd ati i sicrhau bod y cerrig milltir a'r amcanion hynny'n cael eu gwireddu.

- Pa gosbau y mae'r Ddeddf yn darparu ar eu cyfer, neu sydd ar gael i Ysgrifennydd y Cabinet, os nad yw awdurdodau lleol yn cadw at ofynion y Ddeddf?

  Fel y nodir yn adran 21(3) o'r Ddeddf, os bydd y Cynghorydd Cenedlaethol yn gofyn i awdurdod ddarparu gwybodaeth at ddibenion cyflawni un o swyddogaethau'r Cynghorydd, rhaid i'r awdurdod gydymffurfio â'r cais oni bai bod yr awdurdod o'r farn y byddai gwneud hynny'n anghydnaws â swyddogaethau'r awdurdod ei hun, neu y byddai'n cael effaith andwyol ar allu'r awdurdod i gyflawni ei swyddogaethau. Gellir defnyddio'r pwerau hyn os bydd unrhyw broblemau ynghylch cydymffurfio yn codi.

- Nifer yr ysgolion sy'n defnyddio'r Canllawiau Arfer Da ar Berthnasoedd Iach ar hyn o bryd a phryd y bydd awdurdodau lleol yn dechrau adrodd ar y Ddeddf;

  Bydd Estyn yn cynnal adolygiad thematig o'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â pherthynas iach yn ystod blwyddyn academaidd 2016/2017.

  Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, byddwn hefyd yn datblygu Rheoliadau i roi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gyflwyno adroddiad blynyddol ar y camau y maent yn eu cymryd, gan gynnwys camau mewn ysgolion, i hyrwyddo dibenion y Ddeddf.

- Trefniadau cytundebol y Cynghorydd Cenedlaethol. Mae hyn yn ymwneud ag adnoddau a sawl diwrnod yr wythnos y bydd yn gweithio dan gontract; Dechreuodd Rhian Bowen-Davies yn ei swydd fel Cynghorydd Cenedlaethol ar 28 Medi 2015. Penodiad cyhoeddus yw'r rôl cynghori statudol hon, ac felly nid yw Rhian Bowen-Davies yn was sifil nac yn gyflogai.


  Ar hyn o bryd mae'r Cynghorydd Cenedlaethol yn gweithio 3 diwrnod yr wythnos (22.5 o oriau). Hyd y penodiad yw 3 blynedd, a bydd yn dod i ben ar 28 Medi 2018.

- Nifer yr achosion o FGM yng Nghymru, ac unrhyw wybodaeth ychwanegol am wasanaethau arbenigol sydd ar gael ar hyn o bryd:

  Gallaf gadarnhau bod yr Ystadegau ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn dweud y bu 9 achos rhwng Ebrill a Mehefin 2016, ac 11 achos rhwng Gorffennaf a Medi 2016 (er bod data'n dal i ddod i mewn ar gyfer y chwarter hwn).

Rwy'n edrych ymlaen at dderbyn copi o'r adroddiad a fydd yn rhoi manylion y prif faterion sy'n codi yn sgil yr ymchwiliad.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children